

## **CYNGOR CAERDYDD**

### **DATGANIAD POLISI CYFLOG 2018/19**

#### **CYFLWYNIAD A PHWRPAS**

1. Mae Cyngor Caerdydd yn cydnabod pwysigrwydd rheoli tâl yn deg ac yn gyson mewn modd sy'n ysgogi cyflogeion i gyfrannu'n gadarnhaol at fusnes y Cyngor. Mae penderfyniadau ar gyflog yn hollbwysig o ran cynnal cydraddoldeb ym mhob rhan o'r Cyngor. Mae llunio Datganiad Polisi Cyflog yn rhan o'r gwaith hwn a bydd tryloywder yn ganlyniad iddo.

#### **CWMPAS**

2. Mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau ddatblygu a chyhoeddi datganiad polisi tâl ar bob agwedd ar daliadau i Brif Swyddogion (gan gynnwys y rhai a roddir ar ôl gadael swydd), ac ar y sawl a delir y symiau isaf gan yr awdurdod. Rhaid esbonio'r polisi ar y berthynas rhwng taliadau i'r Prif Swyddog a grwpiau eraill. Serch hynny, at ddibenion tryloywder ac atebolrwydd, mae'r Cyngor wedi penderfynu mynd ati'n fwy eang a llunio datganiad polisi ar bob grŵp o gyflogeion ac eithrio athrawon (yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n pennu taliadau'r grŵp hwnnw felly nid yw o fewn rheolaeth yr awdurdod). Nid yw'r polisi'n berthnasol i Aelodau'r Cyngor gan nad cyflogeion ydyn nhw ac mae deddfwriaeth wahanol yn berthnasol iddyn nhw drwy Banel Taliadau Annibynnol Cymru.

#### **DEDDFWRIAETH**

3. Pan benna'r Cyngor daliadau i bob un o'i gyflogeion, bydd yn cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ym mhob achos. Mae hynny'n cynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010, Rheoliadau Gweithwyr Rhan-amser (Atal Triniaeth Llai Ffatriol) 2000, Rheoliadau Gweithwyr Asiantaethau 2010 a phan fo'n berthnasol Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006. Parthed y gofynion Cyflog Cyfartal yn y Ddeddf Cydraddoldeb, bydd y Cyngor yn sicrhau na wahaniaethir yn erbyn cyflogeion drwy strwythurau tâl a bod modd cyfiawnhau gwahaniaethau mewn tâl yn wrthrychol drwy fecanweithiau Gwerthuso Swyddi sy'n unol â chydraddoldeb ac sy'n cysylltu cyflogau'n uniongyrchol â gofynion, anghenion a chyfrifoldebau'r rôl.
4. Mae'r datganiad polisi hwn yn ymgorffori Datganiad Polisi Cyflog Cyngor Caerdydd yn unol â gofynion Deddf Lleoliaeth 2011.

#### **CYFRIFOLDEB A CHWMPAS**

5. Mae'r Cyngor yn gyfrifol yn uniongyrchol am gyllideb o £587 miliwn (2017/18) ac am gyflogi 13,268 (Rhagfyr 2017). Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau ar gyfer poblogaeth o 361,500 (i'r 100 agosaf) yn ôl Nomis, gwasanaeth yn Swyddfa Ystadegau Gwladol. Yn Adroddiad Strategaeth Tai Caerdydd 2016-21, cofnodwyd

bod gan y Cyngor 13,657 o dai yn ei feddiant ac ym mis Medi 2017 roedd 53,997 o ddisgyblion yn ein hysgolion.

## DIFFINIADAU

6. **Prif Swyddog** – dyma ddiffiniad o Brif Swyddog yn ôl Deddf Lleoliaeth 2011:
- Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig – y Prif Weithredwr yw hwn yng Nghaerdydd
  - Swyddog Monitro - Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol yw hwn yng Nghaerdydd
  - Prif Swyddogion Statudol – dyma'r rhain yng Nghaerdydd -
    - Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes
    - Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
    - Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau sy'n ymgymryd â'r rôl Swyddog Adran 151
  - Prif Swyddogion Anstatudol – swyddi anstatudol sy'n adrodd yn uniongyrchol i Bennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig, sef y canlynol yng Nghaerdydd -
    - Cyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau
    - Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd
    - Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd
  - Dirprwy Brif Swyddogion – dyma'r swyddogion sy'n adrodd yn uniongyrchol i brif swyddogion statudol neu anstatudol yng Nghaerdydd mae hynny'n cynnwys -
    - Cyfarwyddwr Cynorthwyol Addysg a Dysgu Gydol Oes
    - Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Plant
    - Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Landlord Corfforaethol
    - Cyfarwyddwr Cynorthwyol Tai a Chymunedau
    - Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gwasanaethau Cwsmeriaid
    - Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Strydlun
    - Pennaeth Gwasanaeth Cyllid
    - Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau
    - Pennaeth Gwasanaethau Democraidaidd – rôl statudol sy'n adrodd i'r Swyddog Monitro
    - Prif Swyddog Gwasanaethau Pobl AD
    - Prif Swyddog Digidol
  - Mae rhai Swyddogion Gweithredol sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Swyddogion Statudol neu Anstatudol (Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau, Cyfarwyddwyr Datblygu Economaidd, Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol; Gwasanaethau Cymdeithasol) ac felly, at ddibenion y polisi hwn, mae'r swyddi hyn wedi'u cynnwys yn y diffiniad hwn. Mae Rheolwyr Gweithredol yn cael eu cyflogi ar yr un telerau ac amodau â Phenaeithiaid Gwasanaeth a Phrif Swyddogion fel y'u nodir ym mharagraff 17.
7. **Y Cyflogeion a Delir Isaf** - mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ddiffinio ei 'gyflogai a delir isaf' yn y datganiad polisi tâl. Yn y Cyngor, y cyflogeion a delir isaf yw'r sawl a benodir ar Bwynt 6 o'r golofn gyflog a gytunwyd yn genedlaethol. Serch hynny, o 1 Medi 2012 mabwysiadodd y Cyngor y Cyflog Byw Gwirfoddol ar gyfer ei gyflogeion. Felly'r cyflog isaf yw £8.45 yr awr ar hyn o bryd. Bydd hynny'n cynyddu i £8.75 o 1 Ebrill 2018.

8. Mae'r Cyflog Byw Gwirfoddol y mae'r Cyngor yn ei dalu'n uwch na Chyflog Byw Cenedlaethol gofynnol y Llywodraeth ar gyfer pobl hŷn na 25 oed, sef £7.50 yr awr (Ebrill 2017).
9. **Tâl** – y diffiniad yn Neddf Lleoliaeth 2011 o daliadau yw 'cyflog, bonysau, costau, ffioedd neu lwfansau a delir, unrhyw fuddion, ac unrhyw gynnydd mewn hawl pensiwn neu ychwanegiad ato. Mae'r diffiniad wedi'i fabwysiadu am y term **tâl** yn y polisi hwn.

## EGWYDDORION ALLWEDDOL

10. Nod y datganiad polisi hwn yw sicrhau bod pob cyflogai'n cael ei wobrwyo'n deg heb wahaniaethu am y gwaith y mae'n ei wneud. Mae'n adlewyrchu tegwch a chyfle cyfartal, yr angen i annog a galluogi cyflogeion i berfformio cystal ag y gallan nhw a'r ymrwymiad i roi strwythur tâl a graddio trylwyr ar waith.
11. Mae'r Cyngor yn cydnabod nad tâl yw'r unig ffordd o wobrwyo a chynnal cyflogeion ac mae'n cynnig ystod ehangach o fuddion gan gynnwys trefniadau gweithio hyblyg, mynediad at ddysgu a datblygu, Siarter Iechyd a Lles a Rhaglen Gymorth i Gyflogeion ac ati.
12. I sicrhau bod yr egwyddorion hyn yn cael eu hymgorffori, bydd y Cyngor yn sicrhau bod prosesau clir a rhesymegol i bennu ac adolygu cyflog pob cyflogai, a bod digon o hyblygrwydd i gydnabod y farchnad gyflog a ffactorau recriwtio a chadw staff.
13. Rhaid i unrhyw ddatganiad polisi ar dâl fod yn fforddiadwy a chynnal darpariaeth gwasanaeth o ansawdd uchel ar gyfer y cyhoedd.

## MANYLION TÂL

### Ystodau Tâl – 'Llyfr Gwyrdd y Cyd-qyngor Cenedlaethol' a Chyflogeion 'Masnach Cydgyngor Trafod Telerau'

14. Cynhaliwyd proses gwerthuso swydd o bob swydd Llyfr Gwyrdd y Cydgyngor Cenedlaethol a Masnach Cydgyngor Trafod Telerau drwy ddefnyddio cynllun Cyngor Taleithiol Llundain Fwyaf. Mae gan y Cyngor Cydgytundebau ag UNSAIN, GMB, Unite (Llyfr Gwyrdd y Cydgyngor Cenedlaethol, ac UCATT. Mae'r broses Gwerthuso Swydd hefyd yn cael ei defnyddio i bennu gradd pob swydd newydd yn y grwpiau cyflogeion hyn.
15. Mae strwythur tâl a graddio'r Cyngor yn cysylltu'r sgorau o'r broses gwerthuso swydd yn uniongyrchol i'r strwythur tâl y Cydgyngor Cenedlaethol. Mae'r strwythur tâl cenedlaethol yn amrywio o bwynt 6 ar y golofn gyflog i 46 sy'n gyfartal â £15,014 i £43,821 ar 1 Ebrill 2017. Yng Nghaerdydd mae gennym ni 10 gradd sy'n cynnwys pwyntiau 6-46 y golofn gyflog, sef rhwng £15,014 a £41,025 ar 1 Ebrill 2017. Mae gan bob gradd nifer o gynyddranau. Mae modd gweld mwy o wybodaeth am Gynllun Tâl Llundain Fwyaf a graddau'r Cyngor yng Nghydgytundeb Statws Sengl y Cyngor. Mae modd gweld y graddau y'u cytunir arno yn Atodiad 1.

16. O ganlyniad i'r Cydgytundeb Statws Sengl, nid yw'r Cyngor yn defnyddio'r pwynt isaf o Golofn Gyflog sef pwynt 4 ers 1 Ebrill 2012, a dilëwyd pwynt 5 ar 1 Hydref 2015. Cafodd hynny effaith gadarnhaol ar y cyflogeion a delid isaf yn y Cyngor. Serch hynny, pwysig yw nodi bod y Cyngor yn talu'r Cyflog Byw Gwirfoddol ers Medi 2012 fel y'i nodir ym mharagraff 8.
17. O 1 Ebrill 2018, mae Cyflogwyr Cenedlaethol Gwasanaethau Llywodraeth Leol yn cyflwyno cynnig cyflog dwy flynedd fel a ganlyn:

Blwyddyn Un – 1 Ebrill 2018

**Cynnydd o'r gwaelod i Bwyntiau'r Golofn Gyflog 6-19** - a chyfradd isaf newydd o £8.50 yr awr. Rhaid nodi y bydd y Cyngor yn parhau i dalu'r Cyflog Byw Gwirfoddol pan fo'n berthnasol.

**Cynnydd mewn Pwyntiau'r Golofn Gyflog 20 ac uwch – cynnydd o 2.0%**

Blwyddyn Dau – 1 Ebrill 2019

Pennu chwe phwynt cyflog newydd yn lle'r 12 isaf ar hyn o bryd, gan ddechrau â chyfradd isaf, gan ddechrau â chyfradd isaf (drwy gyfuno Pwynt 1 a 2 o'r Golofn Gyflog) o £9. Cynigir dileu'r bylchau diangen rhwng pwyntiau cyflog a phennu cynyddrannau o 2.0% rhwng y cynyddrannau newydd rhwng Pwyntiau 1 a 22.

O Bwynt 23 o'r Golofn Gyflog ymlaen, cynigir cynnydd o 2% ym mhob un, a chadw'r un bylchau fel y maen nhw ar hyn o bryd.

18. Os cytunir ar y cynigion uchod, efallai y bydd addasu strwythur tâl a graddio'r Cyngor yn unol â'r raddfa genedlaethol newydd.

Ystodau Tâl – Prif Swyddogion a Rheolwyr Gweithredol

19. Cyflogir swyddi ar lefel Rheolwr Gweithredol ac uwch yn unol â thelerau ac amodau Prif Swyddogion Cydgyngor Trafod Telerau ac mae cyflogau'r swyddi hyn wedi'u gwerthuso drwy ddefnyddio Cynlluniau Gwerthuso Swydd Korn Ferry Hay (Hay gynt) ers 1999.
20. Mae Cydgyngor Trafod Telerau Prif Swyddogion yn negodi cynnydd blynyddol cenedlaethol (DU) ar sail costau byw ar gyfer y grŵp hwn, a phennir unrhyw ddyfarniad drwy hynny. Mae gan Brif Swyddogion a gyflogir dan delerau ac amodau Cydgyngor Trafod Telerau hawl drwy eu contract i unrhyw gynnydd mewn tâl gan y Cydgyngor Trafod Telerau cenedlaethol. Bydd y Cyngor felly yn talu'r dyfarniadau tâl a gytunir yn genedlaethol yn unol â'r hyn a bennir oni fydd y Cyngor llawn yn penderfynu fel arall.
21. Mae'r tabl isod yn cynnwys strwythur talu Uwch Reolwyr:

Lefel	Cyflog*
Prif Weithredwr	£173,417
Cyfarwyddwr Corfforaethol	£132,613

Adnoddau a Chyfarwyddwr Corfforaethol Pobl a Chymunedau	
Cyfarwyddwyr	£122,412
Prif Swyddog Digidol	£98,270
Prif Swyddogion, Cyfarwyddwyr Cynorthwyol	£83,240
Rheolwyr Gweithredol	<u>Lefel 1</u> 5 pwynt o £54,673 - £66,625 <u>Lefel 2</u> 5 pwynt o £44,744 - £54,049

\* Effeithiol o 1 Ebrill 2017 yn unol â Chytundeb Cydgyngor Trafod Telerau ar Dâl Prif Swyddogion Phrif Weithredwyr.

22. Pan werthusir swyddi Prif Swyddogion, gofynnir i Korn Ferry Hay roi gwybodaeth am lefelau cyflogau ar sail asesiadau o feintiau cymharol swyddi a thrwy feincnodi yn erbyn cymariaethau marchnad yn erbyn swyddi o faint a cymhlethdod tebyg. Câi unrhyw adroddiad gan Korn Ferry Hay ar newidiadau i lefelau cyflog eu cyflwyno gerbron Pwyllgor Amodau Cyflogaeth y Cyngor. Dynodwyd y swyddogaethau canlynol i'r pwyllgor yng nghyfansoddiad y Cyngor:

(i) *Cydnabod a phennu polisi a materion cysylltiedig â threfniadaeth, telerau ac amodau Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y'u diffinnir gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Archebion Sefydlog) (Cymru) 2006), ac unrhyw gategori cyflogaeth arall a nodir mewn Rheoliad o bryd i'w gilydd lle y mae angen hynny, gan ddibynnu ar gymeradwyaeth y Cyngor o unrhyw benderfyniad neu amrywiad yn nhaliadau i Brif Swyddogion.*

*Penderfynu ar geisiadau am ail bennu graddau Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y'u diffinir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Archebion Sefydlog) (Cymru) 2006) ac unrhyw gategori cyflogaeth arall a nodir mewn Rheoliad o bryd i'w gilydd, boed drwy apel gan gyflogai yn erbyn penderfyniad i wrthod cais am ailbennu gradd neu i benderfynu ar geisiadau am ailbennu gradd a gaiff eu cymeradwyo'n amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor o ran unrhyw achos o bennu neu amrywio tâl Prif Swyddog.*

23. Ers 2009/10, mae'r Cyngor wedi cyhoeddi manylion talu swyddi Prif Swyddogion ar ei wefan. Cyn hynny, amlinellwyd nifer y swyddogion ar bob band cyflog uwch na £60,000. Mae modd dod o hyd i'r wybodaeth yn y 'Datganiad Cyfrifon' ar y tab 'Eich Cyngor' a thrwy glicio ar y ddolen at 'Cyllid y Cyngor'. Mae cyflog y Prif Weithredwr yn cael ei gyhoeddi ar y wefan ers 2010.
24. O edrych ar y lefelau tâl presennol yn y Cyngor [1:11] yw'r gymhareb rhwng y cyflog isaf (£16,302) a'r Prif Weithredwr (£173,417) ac [1:5] yw'r gymhareb rhwng y cyflog isaf a Prif Weithredwr ar gyfartaledd (£83,240).

[1:7] yw cymhareb yr enillion cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd (£22,658) a'r Prif Weithredwr (£173,417). [1:4] yw cymhareb yr enillion cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd a Phrif Swyddog ar gyfartaledd (£83,240).

Seilir y ffigurau hynny ar gyflog sylfaenol ar 1 Ebrill 2017.

25. Nid yw'r Cyngor yn defnyddio cyflogau na bonysau seiliedig ar berfformiad yn achos Prif Swyddogion.

#### Ystodau Tâl - Cyflogeion heblaw Prif Swyddogion a chyflogeion 'Llyfr Gwyrdd' a 'Chreffft' gynt

26. Mae gan y cyngor gyflogeion ar delerau ac amodau cenedlaethol eraill hefyd, h.y. telerau ac amodau Cydgyngor Trafod Telerau, Ieuencid a Chymuned, Soulbury ac Athro. Seilir cyflogau i'r cyflogeion hynny ar y cyfraddau cyflog a gytunir yn genedlaethol. Cynhwysir cyfraddau cyflog yn Atodiad 4 er gwybodaeth.

#### Cynyddrannau – pob cyflogai

27. Nid yw cyflogeion 'Llyfr Gwyrdd', 'Chreffft' a Rheolwyr Gweithredol yn dringo cynyddran yn awtomatig. Mae hynny'n dibynnu at adolygiad perfformiad llwyddiannus. Yn dilyn adolygiad perfformiad llwyddiannus, mae cynyddrannau fel arfer yn dod i rym o 1 Ebrill bob blwyddyn. Yn achos cyflogeion 'Llyfr Gwyrdd' a 'Chreffft', manylir y gofyniad hwn yn y Cydgytundeb Statws Sengl, ac yn achos Rheolwyr Gweithredol, cynhwysir hynny yn eu telerau ac amodau.

#### Cyflog ar Benodi – pob cyflogai

28. Hysbysebir swyddi ar y gradd y cytunir arni a nodir y cyflog isaf ac uchaf. Yn ymarferol, penodir gan amlaf ar waelod yr ystod, ond mae disgrisiwn i benodi ar bwynt uwch ar y raddfa. Fel arfer, y rheswm dros hynny yw cynnig y cyflog y mae ymgeisydd yn ei ennill eisoes, neu mewn amgylchiadau arbennig.

#### Adolygiad Cyflog – pob cyflogai

29. Adolygir cyflog ym mhob achos yn unol â'r dyfarniadau cyflog cenedlaethol a negodir gan Gyflogwyr Llywodraeth Leol ar y cyd â'r Undebau Masnach cydnabyddedig ar lefel genedlaethol. Gweler gwybodaeth am Gydgyngor Trafod Telerau yn achos dyfarniadau tâl cenedlaethol ym mharagraff 20.

#### Tâl Marchnad Atodol - pob cyflogai

30. Cydnabyddir y bydd cyfradd y farchnad yn achos rhai swyddi allweddol yn uwch na chwmpas y strwythur tâl a graddio, mewn amgylchiadau eithriadol. Yn yr amgylchiadau hynny, adolygir gradd y swydd yn unol â'r Cynllun Tâl Marchnad Atodol yn rhan o becyn statws sengl y Cyngor. Mae'r cynllun yn berthnasol i bob un y mae'r llyfr gwyrdd yn berthnasol iddo, cyflogeion Chreffft, Cydgyngor Trafod Telerau Prif Swyddogion, Cydgyngor Trafod Telerau Ieuencid a Gweithwyr Cymunend a'r sawl sydd ar delerau ac amodau Soulbury. Rhaid cyflwyno achos busnes llawn ar sail tystiolaeth dros dâl marchnad atodol a rhaid dilyn prosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor.

## **TALIADAU YCHWANEGOL**

31. Telir cyflogeion dan y telerau ac amodau 'Llyfr Gwyrdd' a 'Chreffft' ar yr un telerau ac amodau a graddfeydd cyflog drwy Statws Sengl. Serch hynny, cadwyd lwfans offer i rai swyddi crefft.

#### Cyflogeion Llyfr Gwyrdd y Cydgyngor Cenedlaethol a 'Crefft' Cydgyngor Trafod Telerau

32. Telir taliadau ychwanegol fel y'u nodir yn eu Cydgytundebau perthnasol. Gall mathau o daliadau ychwanegol gynnwys: goramser ac amser a hanner ar y penwythnos, adalw i'r gwaith (rhoddir tâl am o leiaf dwy awr), taliadau gwyliau cyhoeddus, lwfansau car/beic modur/gwaith, taliadau am fod wrth gefn/cael eich galw ar fyr rybudd, taliadau nos/noswaith/oriau anghymdeithasol, lwfans sifftiau, cysgu ar y safle, lwfans cymorth cyntaf, adleoli, a thaliadau am danysgrifiadau proffesiynol. I reoli pwysau parhaus ar gyllideb, yn y flwyddyn ariannol 2018/19 ni wneir taliadau am gostau cyfweld, costau adleoli a thanysgrifiadau proffesiynol (nad ydyn nhw'n ofynion cyfreithiol mewn swydd). Rhoddir hyn ar waith yn barhaus ers blwyddyn ariannol 2016/17.

#### Prif Swyddogion a Rheolwyr Gweithredol

33. Mae taliadau ychwanegol a wneir yn cynnwys lwfansau car/beic modur/beic ac mae'r rhain wedi'u cysoni ar gyfer pob cyflogai Cyngor drwy ddefnyddio'r gyfradd sengl seiliedig ar drefniadau CThEM am filltiroedd busnes h.y. 45c y filltir.
34. Costau Cyfweld a chymorth Adleoli – ym mlwyddyn ariannol 2018/19 nid yw'r rhain yn cael eu cynnig o hyd er mwyn rheoli'r diffyg yn y gyllideb.
35. Tanysgrifiadau Proffesiynol – ym mlwyddyn ariannol 2018/19 bydd y Cyngor yn talu'r rhain pan fo'n ofyniad yn y swydd yn unig.
36. Ffioedd Swyddog Canlyniadau – mae Adran 8 Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 yn ei gwneud yn ofynnol penodi Swyddog Cofrestru Etholiadol ac mae Adran 35 o'r un Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol penodi Swyddog Canlyniadau. Yng Nghaerdydd, er bod y ddwy rôl yn parhau i fod yn rhan o ddisgrifiad swydd y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Corfforaethol Adnoddau sy'n ymgymryd â hwy o hyd. Deddfwriaeth sy'n pennu'r ffi am etholiadau seneddol, Undeb Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru, etholiadau Comisiynydd Heddlu a Throseddau a phob refferendwm. Yn achos yr etholiadau a noddir yn allanol, ariennir y ffi drwy grant a ddyfernir gan Lywodraeth Cymru o ran ei hetholiad hi, a chan Lywodraeth Ganolog yn achos pob etholiad arall. Mae gan awdurdodau lleol y disgrisiwn i bennu'r ffi am etholiadau lleol. Yn y Cyngor, pennir y ffi am etholiadau lleol (gan gynnwys arferol ac achlysurol) yn unol â'r ffi a gytunir yn achos etholiadau Llywodraeth Cymru.

#### Cyflogeion Eraill

37. Mae'r Cyngor am negodi ag undebau masnach er mwyn cysoni'r taliadau ychwanegol i gyflogeion leuenctid y Cydgyngor Cenedlaethol a chyflogeion Soulbury â chyflogeion 'Llyfr Gwyrdd' a 'Chreffft'. Bwriad y Cyngor yw dechrau trafodaethau yn y flwyddyn ariannol nesaf.

## CYNLLUNIAU CYDNABYDDIAETH A CHYFRIFOLDEBAU YCHWANEGOL

38. Mae gan y Cyngor gynlluniau ar gyfer achosion lle mae cyflogai'n ymgymryd â swydd ar lefel uwch o dâl (Cynllun Cyfrifoldebau Ychwanegol, S. *Acting Up*) neu lle maen nhw'n ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol ar lefel uwch o gyfrifoldeb (Cynllun Cydnabyddiaeth, S. *Honoraria*). Mae'r cynlluniau hyn yn cwmpasu pob cyflogai yn y Cyngor ac eithrio athrawon, ond ym mlwyddyn ariannol 2018/19 ni weithredir Cynllun Cydnabyddiaeth oherwydd pwysau parhaus ar y gyllideb.

## GWYLIAU BLYNYDDOL

### Cyflogeion Llyfr Gwyrdd a Chrefft, Prif Swyddogion a Rheolwyr Gweithredol

39. Mae hawl i 27 diwrnod o wyliau blynyddol a 32 diwrnod ar ôl gweithio yn y Cyngor am 5 mlynedd. Ar ben hynny ceir 8 gwyl y banc.

### Cyflogeion Eraill

40. Mae hawl gan gyflogeion Cydgyngor Ieuenctid a Chymuned Cenedlaethol i 30 diwrnod o wyliau blynyddol a 35 diwrnod ar ôl gweithio yn y Cyngor am 5 mlynedd. Yn achos Soulbury, mae hawl i 25 diwrnod o wyliau blynyddol a 30 diwrnod ar ôl gweithio yn y Cyngor am 5 mlynedd. Ar ben hynny ceir 8 gwyl y banc a 4 diwrnod statudol ychwanegol i'r ddau grŵp.
41. Mae gwylliau blynyddol yn pro rata i gyflogeion rhan amser.
42. Mae gan y Cyngor gynllun Prynu Gwylliau Blynyddol ar waith. Drwy hwn, gall cyflogeion brynu hyd at 10 diwrnod o wyliau blynyddol a gellir talu am y rhain yn fisol drwy gael tynnu'r gost o'u cyflog yn ystod y flwyddyn wyliau honno. O fis Ionawr 2018, roedd 192 o gyflogeion wedi defnyddio'r cynllun ym mlwyddyn wyliau 2017/18.

## ADRODDAD AR Y BWLCH CYFLOG RHWNG Y RHYWIAU

43. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi adroddiad ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau'n rhan o'i Adroddiad Monitro Anghydraddoldebau Blynyddol. Dyma wybodaeth am y Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau. Mae'r tabl canlynol yn dangos y gwahaniaethau yng nghyflog dynion a menywod ar gyfartaledd ar 31 Mawrth 2017.

	Cyfradd fesul awr ar gyfartaledd	Cyfradd ganol fesul awr
<b>Gwryw</b>	14.93	12.78
<b>Menyw</b>	14.48	12.19
<b>Bwlch Cyflog</b>	<b>3.01%</b>	<b>4.62%</b>

44. Mae'r ffigur **ar gyfartaledd** yn swm o'r holl gyfraddau fesul awr at ei gilydd wedi'i rannu gan y nifer ar y rhestr. I gael y ffigur **ganol**, rhestrwyd yr holl gyfraddau fesul



awr yn ôl rhif. Pan fo odrif, y rhif yn y canol yw'r ffigur ganol. Pan fo cyfanswm gwastad, y ffigur ar gyfartaledd am y ddau yn y canol yw'r ffigur ganol.

45. Mae'r tabl chwarteli isod yn dangos cyfrannau cyflogeion gwrywaidd a benywaidd cyflog llawn perthnasol mewn pedwar band chwartel. Cyfrifir hynny drwy rannu'r gweithlu'n bedair rhan gyfartal. Os oes nifer o gyflogeion ar yr un gyfradd fesul awr mewn dau chwartel, rhennir dynion a menywod mor gyfartal â phosibl rhwng y chwarteli.

Chwarteli	Nifer Dynion	%	Nifer Menywod	%	Cyfanswm
Ch1	848	24.4	2621	75.6	3469
Ch2	1241	30.2	2874	69.8	4115
Ch3	1243	33.8	2439	66.2	3682
Ch4	1056	28.1	2698	71.9	3754
<b>CYFANSWM</b>	<b>4388</b>	<b>29.2</b>	<b>10632</b>	<b>70.8</b>	<b>15020</b>

## PENSIYNAU A DILEU SWYDDI/TALIADAU GADAEI

46. Mae gan bob un o gyflogeion y Cyngor (ac eithrio athrawon) yr hawl i ymuno â'r cynllun pensiwn llywodraeth leol a gynigir gan gyflogwyr Llywodraeth Leol. Os yw cyflogeion yn gymwys, cân nhw ddod yn aelod o'r cynllun (rhaid meddu ar gontact sy'n cwmpasu o leiaf 3 mis a bod yn iau na 75 oed). Caiff cyflogeion optio allan o'r cynllun os mynnon nhw. Mae'r buddion a'r cyfraniadau sy'n daladwy dan y Gronfa wedi'u hamlinellu yn rheoliadau'r Cynllun.

47. Dyma lefel cyfraniad presennol i'r cynllun gan gyflogeion:

Tabl cyfrannu 2017/18			
Band	Cyflog pensiynadwy gwirioneddol cyflogaeth	Cyfradd gyfrannu yn achos y gyflogaeth honno	
		Prif	adran 50/50
1	Hyd at £13,700	5.5%	2.75%
2	£13,701 i £21,400	5.8%	2.9%
3	£21,401 i £34,700	6.5%	3.25%
4	£34,701 i £43,900	6.8%	3.4%
5	£43,901 i £61,300	8.5%	4.25%
6	£61,301 i £86,800	9.9%	4.95%
7	£86,801 i £102,200	10.5%	5.25%
8	£102,201 i £153,300	11.4%	5.7%
9	£153,301 neu fwy	12.5%	6.25%

48. Caiff athrawon ymuno â'r cynllun Pensiynau i Athrawon. Gan fod y cynllun Pensiynau i Athrawon yn cael ei weithredu'n allanol, mae modd dod o hyd i ragor o wybodaeth ar [www.teacherspensions.co.uk](http://www.teacherspensions.co.uk).

49. Mae datganiad cyhoeddus presennol y Cyngor ar bensiynau wedi'i gytuno gan y Cabinet ers 12 Mehefin 2014 ac ar waith ers 30 Mehefin 2014. Mae'r dogfennau perthnasol ar gael ar wefan y Cyngor. Cytunwyd ar newid y ffordd y cyfrifir taliadau dileu swyddi gan y Cabinet ar 26 Ionawr 2015 yn rhan o'r Polisi Dileu Swydd Gwirfoddol ac mae manylion isod ym mharagraff 51.
50. Mae'r ddogfen yn cynnwys manylion am bolisi'r Cyngor ar daliadau yn ôl disgrisiwn o ran dod â chyflogaeth i ben yn gynnar gan Reoliad 7 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Dod â Chyflogaeth i Ben yn Gynnar) (Digolledu yn ôl Disgrisiwn) (Cymru a Lloegr) 2006. Mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys manylion am bolisi'r Cyngor ar gynyddu cyfanswm aelodaeth cynllun pensiwn cyflogai ac am ddyfarnu pensiwn ychwanegol dan Reoliad 66 o Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Gweinyddu) 2008.
51. Mae'r trefniadau yn y ddogfen sydd ym mharagraff 49 yn berthnasol i bob un o gyflogeion y Cyngor o bob gradd a statws. Dyma'r adrannau mwyaf perthnasol isod:
- (i) **Y pŵer i dalu iawndal mewn cyfandaliad o hyd at 104 o wythnosau** - polisi'r Cyngor o ran defnyddio'r disgrisiwn hwn yw bod y tabl dileu swydd statudol yn cael ei luosi gan 1.5 ar gyfer hyd at 45 wythnos o 3 Ebrill 2015.
  - (ii) **Y pŵer i gynyddu Taliad Dileu Swydd Statudol** - polisi'r Cyngor o ran defnyddio'r disgrisiwn hwn yw bod taliadau dileu swydd yn cael eu seilio ar gyflog wythnosol hyd at £489 yr wythnos (o 3 Ebrill 2017) neu'r cyflog gwirioneddol, yr isaf o'r ddau. Addesir y ffigur uchaf gan y swm cyflog wythnos statudol, fel y'i cyhoeddir yn flynyddol gan Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau.
52. Mae'r polisi sydd ar waith ers 5 Ebrill 2015 wedi'i addasu yn unol â phenderfyniad Tribiwnlys Apêl Cyflogaeth yn achos *University of Sunderland v Drossou (13 Mehefin 2017)*. Penderfynodd y tribiwnlys y dylid cynnwys cyfraniadau pensiwn y cyflogwr yng nghyfrifiad cyflog wythnos at ddibenion cyfrifo'n unol â Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996. Mae Adrannau 220-229 o'r Ddeddf yn amlinellu'r rheolau o ran 'darpariaethau cyflog wythnosol' a'r ffordd y caiff cyflog wythnos ei ddefnyddio, gan gynnwys wrth gyfrifo tâl dileu swydd.
53. Dyfarnodd y tribiwnlys y dylid cynnwys yn y cyflog wythnos daliadau sy'n daladwy gan y cyflogwr dan y contract cyflogaeth ac na ddylid cyfyngu'r swm hwn gan yr hyn y mae'r cyflogai'n ei dderbyn yn uniongyrchol. Yn ôl rhesymeg y tribiwnlys, roedd cyfraniadau pensiwn y cyflogwr yn rhan o'r pecyn taliadau a gynigir i gyflogai am ei wasanaethau. O ganlyniad i hynny, yn ôl-weithredol i 13 Mehefin 2017, lle y bo'n briodol, mae cyfraniadau pensiwn y cyflogwr wedi'u cynnwys yn y cyfrifiad, hyd at yr uchafswm o £489.

## **AILGYFLOGI STAFF**

54. Ers 1 Ebrill 2015, mae gan y Cyngor bolisi ar ailgyflogi cyflogeion (ar unrhyw lefel) sy'n derbyn taliad dileu swydd gwirfoddol gan y Cyngor. Cytunodd y Cabinet ar hyn yn 26 Ionawr 2015.

55. Y polisi y mae'r Cyngor wedi cytuno arno yw bod yn rhaid i gyflogeion sy'n gwneud cais am ddileu swydd yn wirfoddol gytuno i'r amod, oherwydd rhwymedigaeth y Cyngor i ddiogelu arian cyhoeddus, na fydd ganddyn nhw hawl i ddod yn ôl i weithio (gan gynnwys staff parhaol, dros dro, achlysurol ac asiantaeth) yn y Cyngor ( gan gynnwys ysgolion) am gyfnod o 12 mis o'r dyddiad y daw'r swydd i ben.
53. Nid yw'r Cyngor o'r farn ei fod yn cyflogi unrhyw unigolyn mewn ffordd sy'n ceisio osgoi treth.
54. Yn y Cyngor, dan bolisiau disgresiwn y gronfa bensiwn nid oes yn gyffredinol leihad yn y pensiwn yn dilyn ailgyflogi ac eithrio yn yr amgylchiadau canlynol:
- (i) Mae person wedi cael Blynnyddoedd Ychwanegol lawndal dan Reoliadau lawndal Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gellir lleihau'r pensiwn. Mae hyn yn ofynnol yn y rheoliadau iawndal ond achosion hanesyddol fydd y rhain gan nad oes modd rhoi Blynnyddoedd Ychwanegol lawndal mwyach.
  - (ii) Mae person wedi ymddeol dan ddarpariaethau salwch haen 1 ac mae'n cael ei ailgyflogi ar ôl hynny. Y rheswm dros hynny yw bod tystysgrif haen 1 yn rhagdybio bod y person yn anffit i weithio yn barhaol. Ni fyddai haenau salwch ac ymddeol eraill yn arwain at leihad adeg ailgyflogi.
55. Câi lleihad, lle y bo'n berthnasol, ei seilio ar ddim gwelliant, hynny yw na ddylai'r pensiwn gyda'r cyflog yn y gyflogaeth newydd fod yn uwch na'r tâl adeg ymddeol (wedi'i addasu rhag cynnydd pensiwn). Dan (a) dim ond i'r pensiwn o Flynyddoedd Ychwanegol lawndal y byddai hynny'n berthnasol.

## **ORIAU GWAITH NAS GWARENTIR**

56. Ym mis Rhagfyr 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru egwyddorion a chanllawiau ar ddefnyddio trefniadau oriau nas gwarentir mewn modd priodol mewn gwasanaethau cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Cafodd yr egwyddorion a'r canllawiau hyn eu datblygu gan y Comisiwn Staff Gwasanaethau Cyhoeddus mewn partneriaeth gymdeithasol â Chyngor Partneriaeth Llywodraeth Cymru a'i grwpiau sector. Mae'r Cyngor wedi ymrwmo i'r egwyddorion a bennir gan Lywodraeth Cymru sy'n berthnasol i'r cyflogeion a gyflogir ar sail rhyddhad, yn achlysurol neu'n sesiynol. Mae'r cyflogeion yn cael eu defnyddio mewn gwasanaethau yn y Cyngor lle mae naill ai angen ychwanegu at y gweithlu er mwyn ateb galw brig yn y llwyth gwaith neu lle mae'r llwyth gwaith yn eithriad.

## **ATEBOLRWYDD A GWNEUD PENDERFYNIADAU**

57. Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, mae'r Cabinet yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar gyflog, telerau ac amodau a threfniadau dileu swydd cyflogeion y Cyngor. Yr eithriad yw'r Pwyllgor Amodau Cyflogaeth sy'n gyfrifol am swyddi ar lefel y Prif Weithredwr ac uwch.
58. Yn unol â Deddf Lleoliaeth 2011, rhaid i'r Cyngor Llawn gytuno ar becynnau dileu swydd uwch na £100,000 ar gyfer Prif Swyddogion. Mae'r pecyn dileu swydd yn

cynnwys unrhyw daliad dileu swydd (o 3 Ebrill 2015, tâl dileu swydd statudol o 30 wythnos a 15 wythnos ar ben hynny), cyfnod hysbysiad contract a'r gost lawn am ryddhau pensiwn yn gynnar (yn unol â rheoliad 68(2) o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol).

59. Cytunir ar Ddatganiad Polisi Tâl gan y Cyngor Llawn yn flynyddol yn unol â deddfwriaeth a bydd y Cyngor llawn yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Datganiad Polisi Tâl.

## **ADOLYGU'R POLISI**

60. Caiff y Datganiad Polisi Cyflog ei gadw dan adolygiad ac ystyrir datblygiadau yng nghyd-destun arfer gorau a deddfwriaeth. Gellir adolygu'r Datganiad Polisi Tâl hefyd yn rhan o drefniadau Craffu presennol y Cyngor. Bydd y Cyngor yn sicrhau bod y Datganiad Polisi Tâl yn cael ei ddiweddarau'n flynyddol yn unol â gofyniad Deddf Lleoliaeth 2011. Cyflwynir y Datganiad Polisi Tâl i'r Cabinet, ac i'r Cyngor llawn, erbyn mis Mawrth bob blwyddyn.

**Salary Scales**

SCP	Job Evaluation Scores (GLPC scheme)	FTE SALARY	MONTHLY	HOURLY (National Living Wage £7.50 from 1/4/2017)	Living Wage Hourly Rate (as at 1st April 2017)
NJC for Local Government (as at 1st April 2017) £16,302					
<b>GRADE 1</b>					
6	1 - 247	15014	1251.17	7.78	8.45
7		15115	1259.58	7.83	8.45
<b>GRADE 2</b>					
8	248 - 286	15246	1270.50	7.90	8.45
9		15375	1281.25	7.97	8.45
10		15613	1301.08	8.09	8.45
11		15807	1317.25	8.19	8.45
<b>GRADE 3</b>					
11	287 - 327	15807	1317.25	8.19	8.45
12		16123	1343.58	8.36	8.45
13		16491	1374.25	8.55	
14		16781	1398.42	8.70	
15		17072	1422.67	8.85	
16		17419	1451.58	9.03	
<b>GRADE 4</b>					
16	328 - 369	17419	1451.58	9.03	
17		17772	1481.00	9.21	
18		18070	1505.83	9.37	
19		18746	1562.17	9.72	
20		19430	1619.17	10.07	
21		20138	1678.17	10.44	
<b>GRADE 5</b>					
21	370 - 409	20138	1678.17	10.44	
22		20661	1721.75	10.71	
23		21268	1772.33	11.02	
24		21962	1830.17	11.38	
25		22658	1888.17	11.74	
26		23398	1949.83	12.13	
<b>GRADE 6</b>					
26	410 - 454	23398	1949.83	12.13	
27		24174	2014.50	12.53	
28		24964	2080.33	12.94	
29		25951	2162.58	13.45	
30		26822	2235.17	13.90	
31		27668	2305.67	14.34	
<b>GRADE 7</b>					
31	455 - 499	27668	2305.67	14.34	
32		28485	2373.75	14.76	
33		29323	2443.58	15.20	
34		30153	2512.75	15.63	
35		30785	2565.42	15.96	
